CYFARFOD

# Cyfarfod y Cabinet: 13 Mehefin 2022

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet ar 13 Mehefin 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Gorffennaf 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Hydref 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Cyfarfod blaenorol

Eitemau'r Prif Weinidog

Busnes y Senedd

Cyllideb Atodol

Cyfyngiadau Coronafeirws

Unrhyw fater arall

Tasglu Hawliau Anabledd



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

- Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS
- Rebecca Evans AS
- Vaughan Gething AS
- Lesley Griffiths AS
- Jane Hutt AS
- Julie James AS
- Jeremy Miles AS
- Mick Antoniw AS

- Dawn Bowden AS
- Hannah Blythyn AS
- Julie Morgan AS
- Lynne Neagle AS
- Lee Waters AS

## Ymddiheuriadau

- Eluned Morgan AS

## Swyddogion

- Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog
- Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Daniel Butler, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sara Faye, Cynghorydd Arbennig
- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Owen John, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Mitch Theaker, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Emily Edwards, Cynghorydd Arbennig (eitem 7)
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Catrin Sully, Swyddfa'r Cabinet
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer wedi COVID-19 a Llywodraeth Leol
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd
- Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
- Helen Lentle, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
- Peter Ryland, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Helen John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflawni'r Seilwaith Ffiniau
- Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid
- Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaeth Ariannol
- Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol
- Rob Orford, y Prif Gynghorydd Gwyddonol ar gyfer Iechyd
- Sioned Rees, Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd
- Liz Lalley, Cyfarwyddwr Adfer ac Ailgychwyn
- Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr, Ailgychwyn wedi COVID-19 a'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Adolygiad 21 Diwrnod

- Tom Smithson, Dirprwy Gyfarwyddwr, Adolygu COVID-19
- Neil Buffin, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol
- Andrew Charles, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol Cynaliadwy
- Rosemary Iles, Prif Reolwr Prosiect FOCUS
- Jon Luxton, Cynghorydd Polisi Anabledd Arbenigol

# Eitem 1: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion 23 Mai.

# Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

## Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

2.1 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y Ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gafodd ei chynnal y dydd Mercher blaenorol yn y Siambr, lle cafodd y cynnig ei gymeradwyo.

# Eitem 3: Busnes y Senedd

3.1 Ystyriodd y Cabinet gynnwys grid y Cyfarfod Llawn a nododd fod yr amser pleidleisio wedi'i amserlennu am 5:50pm ddydd Mawrth a thua 5:55pm ddydd Mercher.

3.2 Nodwyd bod, hyd yma, un cwestiwn amserol wedi'i gyflwyno am y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cyhoeddiad ynglŷn â dyfodol y teithiau hedfan Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.

## Eitem 4: Cyllideb Atodol

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y papur a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23. Roedd y papur yn amlinellu'r dull arfaethedig ac yn nodi'r prif newidiadau ers cyhoeddi'r gyllideb derfynol ym mis Mawrth. Y bwriad oedd cyhoeddi ail gyllideb atodol ym mis Chwefror 2023.

4.2 Roedd y ddwy flynedd blaenorol wedi bod yn rhai eithriadol o ran y swm mawr o adnoddau ychwanegol a oedd ar gael yn ystod y flwyddyn ac roedd dyraniadau wedi'u gwneud drwy gyllidebau atodol. Fodd bynnag, eleni, roedd cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu ar lefel fwy confensiynol o ganlyniad i setliadau Llywodraeth y DU a'r dull a ddefnyddiwyd i ddyrannu adnoddau yn y cyllidebau drafft a therfynol ar gyfer 2022-23.

4.3 Byddai ffocws y gyllideb atodol gyntaf yn dechnegol ei natur yn bennaf. Roedd yn adlewyrchu newidiadau o ganlyniad i Ddatganiad Gwanwyn a phrif amcangyfrifon Llywodraeth y DU, ynghyd â newidiadau cyllidebol i adlewyrchu gweithredu'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 ar lesoedd a dyraniad cyffredinol o gronfeydd wrth gefn mewn perthynas ag ymateb y Llywodraeth i'r rhyfel yn Wcráin. Byddai newidiadau hefyd i gynlluniau ariannu i adlewyrchu'r arbedion o beidio â benthyca at ddibenion cyfalaf yn 2021-22.

4.4 Roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyllid ychwanegol o £567.3m yn Natganiad Gwanwyn Canghellor y Trysorlys. Roedd hyn yn eithrio £180m a ddygwyd ymlaen ar gyfer ad-daliad y dreth gyngor, a oedd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Derfynol. Yr arian ychwanegol oedd £27.8m o adnoddau cyllidol, £200m o adnoddau anghyllidol a £339m o gyfalaf cyffredinol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

4.5 Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau yn y gyllideb atodol yn ymwneud ag ailddosbarthu cyllidebau'n dechnegol i adlewyrchu mabwysiadu IFRS 16 o 1 Ebrill 2022 ymlaen ar draws y sector cyhoeddus. Nodwyd bod IFRS 16 yn safon gyfrifyddu a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o lesoedd, ac eithrio'r rhai ar gyfer eitemau gwerth isel neu eitemau am lai na blwyddyn, gael eu trin yn y datganiadau ariannol mewn ffordd gymaradwy ag asedau a berchnogir.

4.6 O ran IFRS16, roedd cyllideb gyfalaf y Llywodraeth wedi cynyddu £284m mewn perthynas â lesoedd newydd a lesoedd wedi'u hadnewyddu a gynlluniwyd eisoes ar gyfer 2022-23; roedd adnoddau anghyllidol wedi cynyddu £85m, gyda gostyngiad cyfatebol o £80m mewn adnoddau cyllidol. Roedd yr addasiadau hyn yn adlewyrchu'r wybodaeth a ddarparwyd gan adrannau a byddent yn llifo drwodd i'r Prif Grwpiau Gwariant yn y gyllideb atodol hon. Nid oedd unrhyw effaith ar bŵer gwario cyffredinol.

4.7 Ar ôl ystyried y newidiadau hyn a throsglwyddiadau penodol i Adrannau Llywodraeth y DU ac ohonynt, cyfanswm yr arian ychwanegol oedd £63.9m o adnoddau cyllidol (refeniw) a £7.5m o gyfalaf, a fyddai'n cael ei ychwanegu at gronfeydd wrth gefn.

4.8 Cydnabuwyd ei bod yn dal yn bosibl cyhoeddi penderfyniadau ariannu ychwanegol ar ôl i'r gyllideb hon gael ei chyhoeddi, a fyddai'n cael ei unioni yn yr ail gyllideb atodol.

4.9 Y nod oedd cyhoeddi'r gyllideb ar yr 21ain cyn y ddadl sydd wedi'i hamserlennu ar gyfer 12 Gorffennaf.

4.10 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Eitem 5: Cyfyngiadau Coronafeirws: Adolygiad 21 diwrnod i'w gynnal erbyn 16 Mehefin 2022

5.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyfraddau heintiau'r Coronafeirws.

5.2 Atgoffwyd y Cabinet mai diben unrhyw gyfyngiadau yn ymwneud â COVID-19 yng Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws oedd atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Rhaid bod bygythiad i iechyd y cyhoedd a rhaid i'r cyfyngiadau fod yn gymesur o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni. Roedd pob cyfyngiad o'r fath wedi dod i ben ar 30 Mai.

5.3 Roedd y papur yn amlinellu'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd. Roedd canlyniadau diweddaraf Arolwg Heintiau Coronafeirws y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod gan 1.30% o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19 rhwng 22 a 28 Mai. Roedd hyn yn cyfateb i un o bob 75 o bobl.

5.4 Roedd 152 o welyau ysbyty yn cael eu defnyddio gan gleifion â COVID-19 wedi'i gadarnhau. Roedd chwe gwely Uned Gofal Dwys yn cael eu defnyddio gan gleifion ag achosion o'r feirws wedi'u cadarnhau.

5.5 Roedd y cyngor gan y Prif Swyddog Meddygol, a amlinellwyd yn y papur, yn dangos nad oedd yn ymddangos bod unrhyw reswm dros gamu'n ôl o'r sefyllfa bresennol, sef dim mesurau diogelu cyfreithiol, ond roedd angen parhau i gynghori'r cyhoedd bod y risg o haint yn parhau ac y dylid ystyried rhagofalon pan fyddant mewn sefyllfaoedd risg uchel.

5.6 O ystyried ei bod yn ymddangos bod y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn sefydlog, cytunodd y Cabinet i gynnal y lefel ymateb bresennol, ond roedd angen cofio bod achosion yn cynyddu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a bod amrywiolion newydd Omicron yn dod yn fwyfwy amlwg ym Mhortiwgal.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

5.7 Nododd y Cabinet y papur a chytunodd y dylai swyddogion gymryd sylwadau'r Gweinidogion i ystyriaeth.

# Eitem 6: Unrhyw fater arall

## Cynllun Lloches Rwanda Llywodraeth y DU

6.1 Nodwyd bod gan Lywodraeth Cymru friff gwylio ar yr achos gerbron y Llys Apêl i geisio gohirio’r broses o symud ffoaduriaid i Rwanda, tra'n aros am ddadleuon llawn ar gyfreithlondeb y polisi hwnnw. Roedd disgwyl y dyfarniad yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw.

# Eitem 7: Y diweddaraf am y Tasglu Hawliau Anabledd CAB(21-22)100

7.1 Cyflwynodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y papur, a wahoddodd y Cabinet i nodi gwaith y Tasglu Hawliau Anabledd.

7.2 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-13-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.